# IS-BWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

**(O Bell Trwy Teams)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Mawrth, 8 Tachwedd 2022** |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd Sparks** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd T.Bowen** |
| **Cynghorwyr**: | R.Davies, S.Pursey, D.Howlett, M.John, M.Tierney, E.Schiavone, P.Black, M.White a/ac W.Lewis |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | C.Griffiths, K.Jones, O.Enoch, C.Moore, R.Arnold a/ac C.John |

---

## 1. CROESO

Cyflwynodd a chroesawodd Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor Corfforedig y Pwyllgor.

## 2. PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD AR GYFER IS-BWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

Penodwyd y Cyng. Richard Sparks yn Gadeirydd ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru - Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu

Penodwyd Y Cyng. Tim Bowen fel Is-Gadeirydd Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru - Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu

## 3. CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 4. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

5. **CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU**

Rhoddwyd trosolwg o'r cyfrifoldebau o fewn strwythur Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru a'r broses benderfynu i'r Aelodau, fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Gofynnod aelodau am gyfranogiad y Parciau Cenedlaethol ar y prif Gyd-bwyllgor Corfforedig, fodd bynnag nid oeddent yn rhan o'r Pwyllgor Craffu. Hysbysodd swyddogion yr aelodau fod hyn yn cael ei drafod o hyd ac y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i drafod sut y bydd y parciau cenedlaethol yn ymwneud â phob statws gwahanol wrth symud ymlaen.  Nododd yr aelodau y byddai swyddogion yn rhoi diweddariad i'r pwyllgor trosolwg a chraffu, yn amodol ar adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn y dyfodol.

Yn dilyn gwaith craffu, nododd yr aelodau'r adroddiad.

6. **CYLCH GORCHWYL PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU.**

Rhoddwyd trosolwg i aelodau mewn perthynas â chylch gorchwyl Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru a'r Pwyllgor Craffu, fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Gofynnwyd am eglurder ynghylch y cyrff allanol a fyddai  ar gael ar gyfer craffu, fel a amlygwyd yn y cylch gorchwyl. Cadarnhaodd swyddogion y byddai'n gyfyngedig, fodd bynnag byddai unrhyw gyrff allanol a fyddai'n rhan o broses y Cyd-bwyllgor Craffu Corfforedig yn agored i graffu.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

7. **CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG DE-ORLLEWIN CYMRU - BLAENRAGLEN WAITH Y PRIF WEITHREDWR.**

Croesawodd yr aelodau Brif Weithredwr y Cyd-bwyllgor Corfforedig

Diweddarwyd yr aelodau am flaenraglen waith bresennol y Cyd-bwyllgor Corfforedig a rôl Prif Weithredwr y Cyd-bwyllgor Corfforedig ynghyd â'r trefniadau a fydd ar waith ar gyfer rhyddhau gwasanaethau, fel a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Cafwyd trafodaethau ynghylch fformat y gyllideb a'i phrosesu. Rhoddodd y Prif Swyddog Cyllid drosolwg o'r gyllideb. Nodwyd bod dolen i gyfarfod blaenorol y Cyd-bwyllgor Corfforedig lle cymeradwywyd y gyllideb ar gyfer 2022/23. Gofynnodd yr aelodau i gyllideb 2023/24 gael ei chynnwys yn y flaenraglen waith ym mis Ionawr.

Nododd yr aelodau fod y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn datblygu Cynllun Trafnidiaeth erbyn mis Rhagfyr 2022 ac y byddai ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal ym mis Mehefin 2022. Holodd yr aelodau a oedd y dyddiadau hyn yn gywir. Eglurodd swyddogion fod y dyddiadau'n gywir pan ddrafftiwyd yr adroddiad gwreiddiol, fodd bynnag roeddent yn aros am arweiniad pellach gan Lywodraeth Cymru a oedd wedi achosi oedi o ran y dyddiadau. Cadarnhaodd swyddogion, yn dilyn arweiniad pellach byddai diweddariad yn cael ei roi i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Cafwyd trafodaethau ynghylch pynciau yr oedd yr aelodau am eu cynnwys yn y flaenraglen waith Trosolwg a Chraffu. Cytunwyd y byddai sesiwn flaenraglen waith yn cael ei threfnu i ganiatáu i'r pwyllgor ychwanegu ymhellach at eu blaenraglen waith.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

8. **EITEMAU BRYS**

Ni datganwyd unrhyw fuddiannau.

**CADEIRYDD**